General
Dental
Council

**Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg 2024-25**

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn esbonio sut mae'r GDC wedi ceisio cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Rydyn ni wedi ymrwymo i drin y Gymraeg yr un fath â'r Saesneg, gan gydnabod arwyddocâd a hanes yr iaith a gwneud ein gorau glas lle bo modd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws ein gwasanaethau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u gwneud i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Rydyn ni'n parhau i gymryd ymagwedd gymesur at gydymffurfio â'r safonau, sy'n cyd-fynd â maint a chyrhaeddiad ein sefydliad, yn ogystal â nifer y deintyddion cofrestredig a dan hyfforddiant sy'n byw, yn astudio ac yn ymarfer yng Nghymru ar hyn o bryd.

Lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n edrych ar ffyrdd y gallwn wella ein gwasanaethau Cymraeg i ddiwallu anghenion deintyddion cofrestredig, cleifion, deintyddion dan hyfforddiant ac aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru. Mae darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'n gweledigaeth i fod yn rheoleiddiwr cynhwysol y mae pawb yn gallu ymddiried ynddo.

Rydyn ni'n annog adborth gan siaradwyr Cymraeg ar y gwasanaethau a'r wybodaeth rydyn ni'n eu darparu yn Gymraeg. Bydd unrhyw adborth a gawn yn cael ei ddefnyddio i lywio sut rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau ac yn cydymffurfio â'r safonau yn y dyfodol.

**Cefndir**

Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yw'r corff sy'n rheoleiddio tua 112,500 o aelodau o'r tîm deintyddol ledled y DU, gan gynnwys deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol, technegwyr deintyddol, hylenwyr deintyddol, therapyddion deintyddol a therapyddion orthodonteg.

Ein prif nod yw diogelu cleifion a chynnal hyder y cyhoedd mewn gwasanaethau deintyddol. Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni'n cofrestru gweithwyr deintyddol proffesiynol cymwysedig, yn gosod safonau ar gyfer y tîm deintyddol, yn ymchwilio i gwynion am addasrwydd gweithwyr deintyddol proffesiynol i ymarfer, ac yn gweithio i sicrhau ansawdd addysg ddeintyddol.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a greodd Safonau'r Gymraeg a rôl Comisiynydd y Gymraeg. I'r GDC, mae'r Safonau yn golygu sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod pobl ledled Cymru yn cael cyfleoedd ymarferol gwirioneddol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu trafodion â ni.

Rydyn ni wedi parhau i adeiladu ar y rhaglen waith a aeth ati i baratoi'r sefydliad ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg. Mae'r sylfeini rydyn ni wedi'u rhoi ar waith bellach yn rhan o'n harferion bob dydd, o gyfieithu dogfennau a chyhoeddi adroddiadau dwyieithog i sicrhau bod ein gwefan, ein system ffôn a'n gwrandawiadau i gyd ar gael yn y Gymraeg. Nid bodloni gofynion y Safonau yn unig rydyn ni'n ceisio ei wneud; lle mae'n gymesur ac ymarferol, rydyn ni'n edrych am gyfleoedd i fynd ymhellach a gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch.

Ein Pennaeth Materion Cymreig sydd â chyfrifoldeb am gydymffurfiaeth o ddydd i ddydd, gan adlewyrchu'r ffaith bod y Gymraeg yn flaenoriaeth reoleiddiol a chynhwysiant. Rydyn ni'n falch bod gan ein Cyngor gynrychiolwyr o holl genhedloedd y DU, gan gynnwys Cymru, a'n haelod presennol o Gymru, yr Athro Mike Lewis, sy'n cynnal goruchwyliaeth.

**Ein dull gweithredu 2024-25**

Rydyn ni wedi cymryd dull rhagweithiol a chynhwysol o ymwreiddio'r Safonau. Mae hyn wedi cynnwys:

• Rhannu gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg ym mhob rhaglen sefydlu i ddechreuwyr newydd fel bod cydweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau o'r cychwyn cyntaf.

• Darparu hyfforddiant i'r holl staff ar hanes a diwylliant y Gymraeg, a'n cyfrifoldebau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

• Cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'n dogfennau corfforaethol allweddol, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a strategaeth tair blynedd y GDC.

• Cynnal ein hwb mewnrwyd gydag arweiniad ac adnoddau ymarferol i staff.

• Gweithio'n agos gyda Fforwm Cyd-reoleiddwyr Cymru i rannu ymarfer, profi ein dealltwriaeth a defnyddio dull cyson ar draws y sector.

**Safonau Darparu Gwasanaethau**

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau'r ffyrdd y gall pobl ddefnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg:

• Mae ein system ffôn awtomataidd, llinell ffôn y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol a'n gwefan yn parhau i fod ar gael yn Gymraeg.

• Dros y flwyddyn, mae dogfennau ychwanegol wedi'u cyfieithu, ac mae'r holl ddogfennau newydd neu ddiwygiedig perthnasol bellach yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

• Rydyn ni'n barod i gynnal cyfarfodydd a gwrandawiadau yn Gymraeg ar gais. Mae gennym ni drefniadau sefydlog gyda darparwyr gwasanaethau cyfieithu ar y pryd a staff hyfforddedig, er na chafwyd unrhyw geisiadau eleni.

• Rydyn ni'n parhau i gyhoeddi rhai dogfennau yn Gymraeg hyd yn oed os nad yw hynny'n ofynnol, lle mae'n cefnogi hygyrchedd ac arferion da.

• Ar hyn o bryd, mae'r GDC yn moderneiddio ei borth cofrestru ar-lein, sef eGDC. Mae'r system newydd hon yn profi peth oedi ond unwaith y bydd ar waith yng ngwanwyn 2026, bydd yn galluogi defnyddwyr i gael mynediad at y system yn Gymraeg a Saesneg. Rydyn ni wedi gofyn am estyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg i fodloni gofynion terfynol yr hysbysiad cydymffurfio.

Yn y GDC, rydyn ni eisiau i bobl gael dewis go iawn o ran sut maen nhw'n defnyddio ein gwasanaethau, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Mae hynny'n golygu y gallwch ddarllen ein dogfennau pwysicaf yn Gymraeg, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau yn ddwyieithog a chael mynediad at rai adroddiadau yn Gymraeg. Mae cymorth cyfieithu a dehongli hefyd ar gael os hoffech chi gysylltu â ni yn Gymraeg.

**Safonau gweithredol**

Mae ein safonau gweithredol yn canolbwyntio ar ymwreiddio'r Gymraeg yn y ffordd rydyn ni’n gweithio fel sefydliad. Mae hyn yn golygu cefnogi cydweithwyr i ddatblygu sgiliau, monitro defnydd iaith ar draws ein gweithlu a sicrhau bod gofynion iaith Gymraeg yn cael eu hystyried wrth recriwtio.

• Byddwn yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

• Mae ein prosesau monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bellach yn cynnwys defnydd iaith, gan ein helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sgiliau Cymraeg ar draws ein gweithlu.

• Mae pob swydd newydd yn cael ei sgrinio am ofynion Cymraeg. Nid oedd yr un ohonyn nhw’n gofyn am y Gymraeg fel gofyniad hanfodol yn 2024–25, ond mae'r broses bellach wedi'i hymwreiddio.

**Cydymffurfiaeth a Chwynion**

Nid ydyn ni wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â'r Safonau yn 2024–25. Er bod hyn yn awgrymu bod ein prosesau'n gweithio'n dda, rydyn ni’n parhau i ddarparu llwybrau clir ar gyfer cwynion yn Gymraeg fel y gall unrhyw un sy'n dymuno codi pryder wneud hynny'n hyderus.

**Edrych i’r dyfodol**

Yn 2025–26, byddwn yn canolbwyntio ar:

• Ddatblygu platfform eGDC newydd.

• Parhau i ehangu'r ystod o ddeunyddiau a gyhoeddir yn Gymraeg, yn enwedig y rhai ar gyfer deintyddion cofrestredig a'r cyhoedd yng Nghymru.

• Gweithio gyda phartneriaid a chydweithwyr ar draws y sector i roi mwy o hyder iddynt wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan arferol o fywyd proffesiynol. Ochr yn ochr â chwblhau'r ymarferoldeb Cymraeg o fewn eGDC, byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu mwy rhagweithiol â rhanddeiliaid sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys profi adborth ar ein tudalennau gwe a'n dogfennau Cymraeg.

**Casgliad**

Rydyn ni’n falch o'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud yn ein hail flwyddyn o gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan o hunaniaeth a diwylliant Cymru, a'n rôl ni fel rheoleiddiwr ledled y DU yw sicrhau ei bod yn cael ei thrin gyda'r parch a'r cydraddoldeb y mae'n ei haeddu. Rydyn ni’n gweld y Cynllun Iaith Gymraeg nid yn unig fel dyletswydd gyfreithiol ond fel cyfle i gryfhau ymddiriedaeth, hyrwyddo cynhwysiant a chefnogi'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

| | |
|---|---|
| Nifer y cwynion a gafodd y GDC rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r safonau: | Dim |
| Nifer gweithwyr y GDC sydd â sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2025: | Dim |
| Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y GDC (ac eithrio swyddi llywodraethu/ anweithredol) lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol: | Dim |
| Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y GDC (ac eithrio swyddi llywodraethu/ anweithredol) lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol: | Dim |
| Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y GDC (ac eithrio swyddi llywodraethu/ anweithredol) lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol lle’r oedd angen dysgu sgiliau Cymraeg: | Dim |
| Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y GDC (ac eithrio swyddi llywodraethu/ anweithredol) lle’r oedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol: | Dim |
| Nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd gan y GDC (ac eithrio swyddi llywodraethu/ anweithredol) lle nad oedd angen sgiliau Cymraeg: | 132 |